



3/18 Eagle Wing
Temple Quay House
2 The Square
Bristol, BS1 6PN

Gwasanaethau 0303 444 5000
Cwsmer:
e-bost: BrechfaConnection@pins.gsi.gov.uk

At bartïon sydd â diddordeb

Eich cyf:

Ein cyf: EN020016

Dyddiad: 7 Rhagfyr 2015

Annwyl Syr/Fadam

**Deddf Cynllunio 2008 (fel y'i diwygiwyd) – Adran 89 a Rheolau Cynllunio
Seilwaith (Gweithdrefn Archwilio) 2010**

**Cais gan Western Power Distribution (South Wales) plc ar gyfer Gorchymyn
yn Rhoi Caniatâd Datblygu ar gyfer Cysylltiad Coedwig Brechfa**

CAIS AM NEWID POSIBL I'R CAIS

1. Cefndir

1.1 Ddydd Iau 19 Tachwedd 2015, cyflwynodd Western Power Distribution (South Wales) plc (yr "Ymgeisydd") lythyr i gadarnhau'r camau y mae'n bwriadu eu cymryd i wneud cais am gynnig amgen am estyniad deheuol i ran danddaearol y llinell drydan a'i gynnwys yn y cais, fel yr hysbyswyd yr Arolygiaeth Gynllunio yn ei lythyr dyddiedig 9 Tachwedd 2015. Derbyniodd yr Awdurdod Archwilio lythyr 9 Tachwedd 2015 i'w archwilio ar 11 Tachwedd 2015.

1.2 Mae llythyr 19 Tachwedd 2015 yn cynnwys nodyn sy'n amlinellu'r camau y mae'r Ymgeisydd yn eu cymryd i:

- a) Helpu'r Awdurdod Archwilio (AA) i gyhoeddi penderfyniad gweithdrefnol mewn modd amserol;
- b) Sicrhau bod yr holl Bartion â Buddiant yn ymwybodol o'r newidiadau arfaethedig er mwyn caniatáu trafodaeth agored; a
- c) Galluogi'r Ymgeisydd i fynd ar drywydd y newidiadau dylunio manwl angenrheidiol, adolygu'r wybodaeth amgylcheddol a chynnal ymgynghoriad digonol â Phartion â Buddiant cyn gynted â phosibl ac o fewn amserlen yr archwiliad.

2. Y newidiadau posibl

2.1 Mae'r newidiadau posibl yn deillio o ymatebion gan Gyngor Sir Gâr (CSG) [REP1-026] a Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) [REP1-020] i effeithiau'r llinell drydan uwchben ar ardal tirwedd arbennig (ATA) Cwm Tywi a thirwedd gofrestrdig o ddiddordeb hanesyddol eithriadol Cwm Tywi, o bolion 84-86. Mae'r Ymgeisydd o'r farn na ellir cyfiawnhau'n newidiadau, ond mae'n fodlon cynnwys y newid fel cynnig amgen yn y cais. Caiff safbwynt yr Ymgeisydd ei esbonio'n fanwl yn ei lythyr dyddiedig 19 Tachwedd 2015 a'r nodyn cysylltiedig. Mae'r dogfennau'n ymwneud â'r cais am newid posibl wedi eu cyhoeddi ar ein gwefan yn:

<http://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/BFConnection>

2.2 Ar 22 Hydref 2015, cynigiodd CNC [REP1-020] y dylid newid lleoliad trefniant polion terfynol ac, o ganlyniad, cynigir rhoi estyniad byr i'r adran o geblau dan y ddaear yn Adran A y prosiect. Byddai hyn yn arwain ar adran ychwanegol o oddeutu 270 metr o linell uwchben yn cael ei rhoi dan y ddaear. Byddai'r newid hwn yn cael gwared â'r angen am bolion rhif 85 ac 86 ac yn newid lleoliad polyn 84, a fyddai'n dod yn bolyn terfynol hefyd.

2.3 Mae CNC a CSG o'r farn bod y newid yn angenrheidiol er mwyn lliniaru effaith y llinellau uwchben ar y rhan hon o'r ATA. Mae CNC a CSG o'r farn nad yw'r Ymgeisydd wedi asesu'r effaith debygol ar y dirwedd ddynodedig yn ddigonol, ond y gallai'r effeithiau niweidiol gweledol ac ar y dirwedd a nodwyd ganddynt gael eu hosgoi trwy estyniad deheuol byr i'r rhan o'r llwybr y cynigir ei rhoi dan y ddaear.

2.4 Nid yw'r Ymgeisydd o'r farn y gellir cyfiawnhau gosod yr adran ychwanegol dan y ddaear, ond oherwydd yr hyn y mae'n ystyried yn natur "ddibwys" y newid ac oherwydd mai hon yw'r unig elfen liniaru bellach y mae ymgynghorwyr CNC a CSG wedi awgrymu ei bod yn briodol, mae'n fodlon ei gynnwys yn y cais fel cynnig amgen. Mae'r Ymgeisydd yn bwriadu cyflwyno cais i ddarparu y gall yr adran ychwanegol amgen dan y ddaear gael ei chynnwys fel newid amgen o fewn yr archwiliad presennol.

3. Penderfyniad Gweithdrefnol

3.1 Wrth ystyried y cais hwn, mae'r AA wedi darllen ac wedi ystyried **Deddf Cynllunio 2008: Arweiniad ar Archwilio Ceisiadau ar gyfer Caniatâd Datblygu** (Yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol (DCLG), Mawrth 2015) (para 109 i 115) a **Nodyn Cyngor 16: Sut i wneud cais am newid a all fod yn berthnasol** (a gyhoeddwyd gan yr Arolygiaeth Gynllunio yng Ngorffennaf 2015).

3.2 Mae'r AA wedi penderfynu derbyn dogfen 19 Tachwedd 2015, sef

- **Nodyn ynghylch Cynnig am Estyniad Deheuol Amgen i'r Adran Danddaearol fel Amrywiad i'r Cynllun**

gan yr Ymgeisydd i'r archwiliad.

3.3 Fodd bynnag, mae'r AA o'r farn nad oes ganddo ddigon o wybodaeth i wneud penderfyniad ynghylch p'un a ddylai ei archwilio fel dewis amgen a byddai angen i'r Ymgeisydd gyflwyno mwy o wybodaeth er mwyn i'r AA allu ei ystyried fel cynnig amgen h.y. cwblhau camau 3 a 4 yn Ffigur 1 Nodyn Cyngor 16 a darparu manylion fel

y disgrifir yn Ffigur 2 Nodyn Cyngor 16.

3.4 Cyn gwneud cais ysgrifenedig (Cam 4 Ffigur 1 Nodyn Cyngor 16), mae'r AA yn cynghori y dylai'r Ymgeisydd ymgynghori â'r holl unigolion hynny a ragnodir yn Neddf Cynllunio 2008 dan adran 42 (1)(a) i (d) y gallai'r newid arfaethedig effeithio arnynt (**gan roi o leiaf 28 diwrnod o'r cyhoeddi cyntaf i dderbyn ymatebion gan yr unigolion hynny**). Os yw'r Ymgeisydd yn bwriadu mabwysiadu dull wedi'i dargedu i adnabod y rhai y mae'r newid arfaethedig yn effeithio arnynt, yna dylid darparu cyfiawnhad ar gyfer peidio ag ymgynghori ag unigolion rhagnodedig penodol.

3.5 Mae'r AA hefyd yn cynghori'r Ymgeisydd i roi hysbysiadau mewn papurau newydd am bythefnos cyn 'Cam 4' (gweler para 8.3 'Nodyn' yr Ymgeisydd, dyddiedig 19 Tachwedd a Rheoliad 17(3)(c) o Reoliadau Cynllunio Seilwaith Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol).

3.6 Pe byddai'r AA yn penderfynu derbyn y newid ar gyfer ei archwilio, yn dilyn cais ysgrifenedig (Cam 4 Ffigur 1), yna mae gan yr AA yr hawl i ofyn am gynnal ymgynghoriad pellach, os yw o'r farn na fu'r camau a gymerwyd gan yr Ymgeisydd yn ddigonol i ddiogelu buddiannau a/neu hysbysu'r rhai y gallai'r newid arfaethedig effeithio arnynt.

3.7 Y cais a gaiff ei archwilio (yn y cyfamser) yw'r un y mae'r AA yn ei archwilio ar hyn o bryd (a gyflwynwyd ar 29 Mai 2015 ac a dderbyniwyd ar 4 Mehefin 2015, ynghyd â rhestr gwallau a dderbyniwyd ar 24 Awst 2015).

3.8 Yn y gwrandawiadau sydd ar ddod ar 8 a 9 Rhagfyr 2015, bydd yr AA yn clywed sylwadau gan Bartion â Buddiant ar sail yr angen i osod llinellau dan y ddaear ar sail eu sylwadau blaenorol, yn clywed ymateb yr Ymgeisydd i'r sylwadau hynny ac yn gofyn a yw'n Ymgeisydd yn dymuno cyflwyno unrhyw gyfryw newidiadau fel newid i'w gais (ac os ydyw, y bydd angen iddo gyflwyno rhagor o fanylion/dogfennau, fel y crybwyllwyd uchod).

3 Newidiadau posibl i'r amserlen archwilio

4.1 Os a phan fydd yr AA yn derbyn y wybodaeth ychwanegol y gofynnwyd amdani uchod, ynghyd ag unrhyw ymatebion ymgynghori, bydd yr AA yn penderfynu p'un a yw am dderbyn y newid i'r archwiliad ai peidio.

4.2 Pe byddai'r AA yn penderfynu derbyn y newid i'r archwiliad, yna byddai'r AA yn ysgrifennu eto gyda rhagor o fanylion am sut y caiff y newid ei archwilio. Pe byddai'r AA yn penderfynu newid yr amserlen archwilio, yna byddai pob parti'n cael ei hysbysu am hynny.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau pellach, peidiwch ag oedi i gysylltu â ni.

Yr eiddoch yn gywir

Martin Broderick

Martin Broderick
Awdurdod Archwilio

Gellir rhoi cyngor am wneud cais am gydsyniad datblygu neu wneud sylwadau ynglŷn â chais (neu gais arfaethedig). Fodd bynnag, nid yw'r ohebiaeth hon yn gyngor cyfreithiol y gallwch ddibynnu arno a dylech chi gael eich cyngor cyfreithiol a phroffesiynol yn ôl y gofyn.

Caiff cofnod o'r cyngor a ddarperir ei gofnodi ar wefan yr Arolygiaeth Gynllunio ynghyd ag enw'r unigolyn neu'r sefydliad a ofynnodd am y cyngor. Caiff preifatrwydd unrhyw wybodaeth bersonol arall ei amddiffyn yn unol â'n Siarter Gwybodaeth a dylech fwrw golwg drosti cyn anfon gwybodaeth i'r Arolygiaeth Gynllunio.